Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

## Ystadegau Medr

# Ansawdd a Methodoleg: Addysg bellach, prentisiaethau a dysgu cymunedol

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod ystadegau:** | Sta/Medr/04/2026 - **Atodiad A** |
| **Dyddiad:** | 26 Chwefror 2026 |
| **E-bost:** | ystadegau@medr.cymru |

| | |
|---|---|
| **Crynodeb:** | Gwybodaeth ansawdd a chynhyrchu ar gyfer yr Adroddiad a thablau addysg bellach, prentisiaethau a dysgu cymunedol. |
| **Thema:** | Addysg bellach, prentisiaethau a dysgu cymunedol |
| **Ffynhonnell:** | Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) |

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Cynnwys


Yr hyn sydd wedi newid ... 3
- Cyfrif dysgwyr ... 3
- StatsCymru ... 3
- Data dros dro ar gyfer y flwyddyn academaidd bresennol ... 4
- Niferoedd rhaglenni rhan-amser ... 4
- Mathau eraill o ddysgu seiliedig ar waith ... 4
- Data newydd ... 4

Gwella ystadegau dysgu cymunedol awdurdod lleol ... 5

Cyd-destun ... 6
- Cyffredinol ... 6
- Cyd-destun polisi ... 6

Ffynhonnell y data ... 7
- Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) ... 7

Diffiniadau a dulliau ... 8
- Niferoedd dysgwyr, rhaglenni dysgu a gweithgareddau dysgu ... 8
- Cyfnod o amser ... 8
- Dysgu Seiliedig-ar-waith ... 8
- Math o ddarpariaeth ... 9
- Oedran ... 10
- Prydau Ysgol Am Ddim ... 10
- Rhywedd ... 10
- Pynciau ... 10

Talgrynnu ... 11

Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd ... 12
- Perthnasedd ... 12
- Cywirdeb ... 12
- Amseroldeb a phrydlondeb ... 12
- Hygyrchedd ac eglurder ... 12
- Cymharedd a chydlyniad ... 13
  - Rhaglenni dysgu prentisiaeth ... 13
  - Hyfforddeiaethau a Twf Swyddi Cymru+ ... 13
  - Data ar gyfer blynyddoedd blaenorol ... 13
  - Dysgu nas cyllidir: ... 13
  - Sector Dysgu Cymraeg: ... 14
  - Codau ailsefyll ... 14
- Y boblogaeth mewn-dysgu ... 14
- Dull dysgu ... 14

Datganiad cydymffurfio â’r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau ... 16

Dibynadwyedd ..... 16
Ansawdd ..... 16
Gwerth ..... 16
Newid yn y statws ystadegau achrededig ..... 16
Rhagor o fanylion ..... 17
StatsCymru ..... 17
Allbynnau ystadegol eraill sy’n defnyddio data LLWR ac sy’n tanategu’r datganiad hwn ..... 17
Gwledydd y DU ..... 17

# Yr hyn sydd wedi newid

Os bydd gennych unrhyw adborth ar y newidiadau hyn, cysylltwch ag ystadegau@medr.cymru.

## Cyfrif dysgwyr

Mae'r dull o gyfrif niferoedd dysgwyr wedi cael ei wella. Mae'r mater yn ymwneud â sut i gyfrif dysgwyr a astudiodd sawl math o ddysgu mewn blwyddyn.

Yn flaenorol, byddai dau fesur yn cael eu defnyddio: dysgwyr unigryw a dysgwyr darparwyr. Byddai dysgwyr unigryw yn cyfrif dysgwr unwaith ar gyfer yr holl ddysgu. Byddai dysgwyr darparwyr yn cyfrif dysgwr unwaith fesul darparwr y bu'n ei fynychu.

Ar gyfer y naill fesur a'r llall, pe bai dysgwyr yn astudio sawl math o ddysgu, dim ond o dan un ohonynt y byddai'n cael ei gyfrif. Byddai prentisiaethau'n cael eu blaenoriaethu, ac yna addysg bellach amser llawn.

Mae dysgwyr unigryw a dysgwyr darparwyr wedi cael eu disodli gan un cyfanswm dysgwyr. Yn y mesur newydd hwn, caiff dysgwyr eu cyfrif unwaith ym mhob rhes mewn tabl neu ystadegyn. Er enghraifft, byddai dysgwr yn cael ei gyfrif unwaith ar gyfer “cyfanswm y dysgwyr”, ond byddai hefyd yn cael ei gyfrif o dan bob math o ddysgu a wnaeth, ac o dan bob darparwr y bu'n ei fynychu.

Ffigur 19: Cymhariaeth o'r dulliau ar gyfer cyfrif dysgwyr yn ôl math o ddarpariaeth, Awst 2023 i Orffennaf 2024

| Math o ddysgu | Dull blaenorol (dysgwyr unigryw) | Dull newydd (dysgwyr)) |
|---|---|---|
| Prentisiaethau | 47,855 | 47,910 |
| Addysg bellach amser llawn | 47,090 | 47,725 |
| Addysg bellach ran-amser | 61,555 | 63,315 |
| Dysgu cymunedol awdurdod lleol | 13,035 | 13,035 |

## StatsCymru

Mae tablau StatsCymru wedi cael eu symud o hen wefan StatsCymru i'r wefan newydd.

Rydym wedi achub ar y cyfle i symleiddio a safoni nifer y tablau sydd ar gael.

Rydym wedi cynyddu nifer y newidynnau ym mhob tabl. Mae rhai tablau a oedd yn y daenlen gysylltiedig bellach wedi'u cynnwys yn nhablau StatsCymru ac wedi cael eu dileu o'r daenlen.

Os bydd angen i chi gael data nad ydynt ar gael i chi mwyach, cysylltwch ag ystadegau@medr.cymru a byddwn yn anfon y data perthnasol atoch. Gallwn hefyd ystyried ychwanegu unrhyw dablau sydd ar goll.

## Data dros dro ar gyfer y flwyddyn academaidd bresennol

Mae data dros dro ar gyfer dysgu yn chwarter 1 (Awst i Hydref) yn y flwyddyn academaidd bresennol wedi cael eu hychwanegu at yr adroddiad hwn.

Mae'r sylwebaeth yn yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am addysg bellach amser lla,wn lle mai canran y rhaglenni a gofnodwyd yn chwarter 1 oedd 99% yn 2024/25. Mae gan fathau eraill o ddarpariaeth ganran is o ddysgwyr a rhaglenni yn chwarter 1.

Mae data dros dro ar brentisiaethau ar gael yn [Rhaglenni dysgu prentisiaeth a ddechreuwyd, Awst i Hydref 2025].

Mewn data dros dro, dim ond dyddiad dechrau a dyddiad gorffen y rhaglen a ddefnyddir i weld a yw wedi bod yn cael ei chynnal yn ystod y flwyddyn academaidd berthnasol. Mewn data nad yw dros dro, defnyddir gwybodaeth sy'n ymwneud â phryd y bydd dysgwr yn dechrau ar ei weithgareddau dysgu o fewn rhaglen. Y rheswm dros hyn yw bod y data ar weithgareddau yn aml yn cael eu cofnodi ar Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru yn hwyrach na'r data ar raglenni.

Caiff y data terfynol ar gyfer blwyddyn lawn 2025/26 eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2027.

## Niferoedd rhaglenni rhan-amser

Mae data ar nifer y rhaglenni rhan-amser a gynhaliwyd wedi cael eu dileu.

Gall rhaglenni rhan-amser amrywio'n fawr o ran cyfanswm y gweithgareddau dysgu a gynhelir. Mae'r cyllid yn seiliedig ar yr oriau a ddarparwyd a gellir cofnodi'r oriau hynny ar draws nifer o raglenni, ond mae'r cyllid ar gyfer addysg bellach amser llawn yn seiliedig ar gyfanswm nifer y rhaglenni a gynhaliwyd. Nid oedd cyfrif nifer y rhaglenni'n cynrychioli faint o ddysgu a oedd yn digwydd yn effeithiol.

Rydym yn bwriadu cyflwyno mesur newydd sy'n seiliedig ar nifer yr oriau o ddysgu a gwblhawyd yn lle niferoedd y rhaglenni rhan-amser.

## Mathau eraill o ddysgu seiliedig ar waith

Mae'r categori ‘Mathau eraill o ddysgu seiliedig ar waith’ wedi cael ei ddileu o'r data ar addysg bellach, prentisiaethau a dysgu cymunedol awdurdod lleol.

Mae tabl ar wahân (6.1) wedi cael ei greu yn y daenlen gysylltiedig sy'n cynnwys gwybodaeth am nifer y rhaglenni dysgu seiliedig ar waith eraill.

Mae ‘Mathau eraill o ddysgu seiliedig ar waith’ yn cynnwys cymwysterau pontio ar gyfer pobl sy'n gweithio gyda phlant mewn lleoliadau chwarae neu ofal plant. Ni chaiff y gweithgareddau dysgu hyn eu hariannu gan Medr. Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw hyn o hyd.

## Data newydd

Mae data wedi cael eu hychwanegu ar gyfer:

- Prentisiaethau iau
- Cymariaethau'r boblogaeth dysgwyr yn ôl cefndir ethnig

## Gwella ystadegau dysgu cymunedol awdurdod lleol

Cafodd data ar ddysgu cymunedol awdurdod lleol eu gohirio y llynedd am i ddarparwr roi gwybod bod gwallau sylweddol yn y data a gyflwynwyd ganddo i Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) ar gyfer 2023/24.

Gwnaethom ymchwilio i'r posibilrwydd bod y mater yn effeithio ar awdurdodau lleol eraill. Cafodd nifer y gweithgareddau dysgu a gynhaliwyd gan bob darparwr ei gymharu â'r lefelau cyllid, a chysylltwyd ag awdurdodau lleol â phatrymau afreolaidd. Ni ddaethpwyd o hyd i broblemau.

Cywirwyd y data ar gyfer 2023/24, ac ni chafodd patrymau tebyg eu darganfod yn 2024/25.

Ariennir Dysgu Cymunedol Awdurdodau Lleol drwy'r Grant Dysgu Cymunedol. Yn y gorffennol bu'r grant yn ffynhonnell cymharol fach o gyllid. Yn wahanol i fathau eraill o ddysgu, ni chaiff data'r LLWR eu defnyddio i ddyrannu na dilysu'r dysgu a ddarperir drwy'r grant hwn. O ganlyniad i hyn, ceir mwy o botensial am broblemau'n gysylltiedig ag ansawdd data na fyddent yn effeithio ar addysg bellach na dysgu seiliedig ar waith.

Cywirwyd y data ar gyfer 2023/24, ac ni chafodd patrymau tebyg eu darganfod yn 2024/25.

O hyn ymlaen, bydd y ffordd y caiff cyllid ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned ei fonitro'n dibynnu ar y data y bydd darparwyr yn eu cyflwyno drwy system Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru yn unig. Mae hyn yn newid sylweddol: cyn hyn, ar gyfer adroddiadau ar fesurau perfformiad y mae data Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru wedi cael eu defnyddio'n bennaf ond, o 2026/27 ymlaen, byddant yn cael dylanwad uniongyrchol ar adroddiadau ac archwiliadau cyllid diwedd blwyddyn.

Mae'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2025 a mis Gorffennaf 2026 yn gweithredu fel cyfnod pontio tuag at hyn.

Mae rhai newidiadau wedi dechrau'n barod, gan gynnwys gwelliannau i'r ffordd y caiff data eu casglu a'u gwirio, ac mae canllawiau manwl wedi cael eu cyhoeddi yn nogfen y fanyleb ar gyfer rhaglenni dysgu oedolion yn y gymuned. Bydd diweddariadau pellach yn parhau yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwneud y system yn fwy cywir a chyson. Mae'r cod cyllid ar gyfer y Grant Dysgu Cymunedol yn cael ei ddatblygu i gyfateb yn uniongyrchol i'r cod cyllid addysg bellach ar gyfer darpariaeth ran-amser.

Hefyd, mae'r dyraniad cyllid wedi cael ei fapio i rychwanatu'r flwyddyn academaidd yn hytrach na'r flwyddyn ariannol fel o'r blaen, er mwyn sicrhau cysondeb pellach rhwng y Grant Dysgu Cymunedol a'r ffordd y caiff addysg ôl-16 ran-amser ei darparu'n gyffredinol.

Gan y bydd y gallu i adhawlio yn y dyfodol yn dibynnu ar y wybodaeth a gyflwynir i Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, mae gan ddarparwyr gymhelliant llawer cryfach i sicrhau bod eu data'n gyflawn, yn gywir, ac yn cael eu cyflwyno ar amser.

Po agosaf yw'r cysylltiad rhwng data a chyllid, pwysicaf yw hi i bawb sicrhau bod y data'n gywir – ac felly rydym yn disgwyl y bydd ansawdd cyffredinol data yn gwella.

# Cyd-destun

## Cyffredinol

Mae’r datganiad ystadegol hwn yn crynhoi data ar niferoedd dysgwyr mewn addysg bellach, prentisiaethau a dysgu cymunedol awdurdodau lleol a gyllidir yn gyhoeddus.

Cyn 2017/18 nid oedd y ffigyrau’n gyfyngedig i ddysgu cyllidadwy yn y darparwyr hynny. O 1 Awst 2017, nid yw gwybodaeth sy’n ymwneud â gweithgareddau dysgu nas cyllidir yn gyhoeddus yn cael ei chasglu mwyach. Mae hyn wedi effeithio ar nifer y dysgwyr rhan-amser mewn addysg bellach yn y blynyddoedd ers hynny.

Mae’r datganiad yn cynnwys gwybodaeth am sefydliadau Addysg Bellach (AB) (y cyfeirir atynt fel colegau), darparwyr Dysgu Seiliedig-ar-waith a dysgu cymunedol awdurdodau lleol ond heb gynnwys sefydliadau Addysg Uwch (AU), y sector Dysgu Cymraeg a chweched dosbarth mewn ysgolion.

## Cyd-destun polisi

Mae gan y datganiad hwn ac allbynnau eraill o ddata Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) sy’n ei danategu rôl o ran cefnogi prosesau penderfynu mewn perthynas â'r canlynol:

- Y Fframwaith Cynllunio a Chyllido Ôl-16. Rhaglenni heblaw cymwysterau sydd wrth graidd y fframwaith cyllido gyda phob rhaglen yn meddu ar ddiben a deilliant diffiniedig a fydd yn cael eu defnyddio i’w monitro.
- Mae Cynllun Strategol Medr 2025 i 2030 yn nodi ein hymateb arfaethedig i’r datganiad o flaenoriaethau strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi gan Lywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ar 28 Chwefror 2024. Mae hefyd yn ystyried y gofynion deddfwriaethol a osodir arnom yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, yn ogystal â deddfwriaeth arall sy’n gosod dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru.
- Caiff yr ymrwymiad i gyflwyno prentisiaethau ei nodi yn y Rhaglen Lywodraethu, sy’n cynnwys ymrwymiad i greu 100,000 o brentisiaethau pob oed newydd.

# Ffynhonnell y data

## Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR)

Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru yw'r system casglu data a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i alluogi darparwyr AB, dysgu seiliedig-ar-waith a dysgu cymunedol awdurdodau lleol i gyflwyno data unigoledig ar-lein ar ddysgwyr, a'u rhaglenni, gweithgareddau a dyfarniadau dysgu.

Mae systemau Llywodraeth Cymru'n llwytho'r data ar gronfa ddata i hwyluso gwaith dadansoddi. Wedyn trosglwyddir y gronfa ddata i Medr i'w phrosesu a'i dadansoddi. Ceir rhagor o wybodaeth am LLWR gan gynnwys llawlyfrau cymorth i ddefnyddwyr ar wefan Medr.

Caiff y data a ddefnyddir yn yr ystadegau hyn ei echdynnu o LLWR ar y dydd Iau yn y drydedd wythnos lawn ym mis Rhagfyr.

Prif ddiben LLWR yw darparu data ar AB/dysgu seiliedig-ar-waith/dysgu cymunedol awdurdodau lleol i hwyluso'r broses o gynllunio a chyllido darpariaeth ddysgu a gyflwynir. Mae data LLWR hefyd yn sail ar gyfer monitro perfformiad a deilliannau, goleuo strategaeth a datblygu a darparu ystadegau ar AB/dysgu seiliedig-ar-waith/dysgu cymunedol awdurdodau lleol yng Nghymru.

## Diffiniadau a dulliau

### Niferoedd dysgwyr, rhaglenni dysgu a gweithgareddau dysgu

Mae Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) yn cynnwys setiau data sy'n seiliedig ar ddysgwyr, eu rhaglenni dysgu a'u gweithgareddau dysgu sy'n rhan o'r rhaglenni hynny (yn ogystal â dyfarniadau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y datganiad hwn).

Mae tablau sy'n cyfeirio at ddysgwyr unigryw a ffigyrau sy'n cyfeirio at ddysgwyr yn yr adroddiad yn seiliedig ar gyfrifau o ddysgwyr unigol gan ddefnyddio methodoleg sy'n cyfrif dysgwr sy'n bresennol mewn mwy nag un darparwr unwaith yn unig.

Mae rhaglenni dysgu'n set o weithgareddau y mae dysgwr yn eu hastudio mewn darparwr at ddiben penodol. Enghraifft o raglen ddysgu yw "3 Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru". Bydd dysgwr yn cael ei gyfrif ar gyfer pob rhaglen a ddilynodd mewn blwyddyn academaidd. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni a ddechreuwyd mewn blwyddyn academaidd gynharach, a rhaglenni lle gadawodd y dysgwr cyn pryd o fewn yr 8 wythnos gyntaf.

Yn y ffigyrau a gynhwysir yn yr adroddiad, a'r daenlen sy'n cyd-fynd ag ef, caiff rhaglenni addysg bellach amser llawn eu cyfrif unwaith yn unig y dysgwr y darparwr.

Mae gweithgareddau dysgu'n gymhwyster neu nod dysgu arall penodol y mae dysgwr yn ei wneud fel rhan o raglen. Bydd gan raglen ddysgu un gweithgaredd neu fwy.

### Cyfnod o amser

Mae cyfrifon blwyddyn gyfan yn seiliedig ar yr holl ddysgwyr a gofrestrwyd yn ystod y flwyddyn academaidd.

### Dysgu Seiliedig-ar-waith

Mae rhaglenni dysgu seiliedig-ar-waith yn y datganiad hwn bellach yn cynnwys prentisiaethau yn bennaf.

Rydym hefyd yn cynnwys mesur o ddechreuadau sy'n ymwneud yn benodol â'r targed i greu 100,000 o brentisiaethau pob oed. Mae'r mesur hwn yn diystyru dechreuadau a gofnodwyd fel ymadawyr cynnar (llai nag 8 wythnos) a'r rhai y cofnodwyd eu bod wedi trosglwyddo i brentisiaeth arall.

Bydd ystadegau chwarterol ar raglenni dysgu prentisiaeth a ddechreuwyd yn parhau i gael eu diweddaru i adlewyrchu cynnydd tuag at y targed newydd yn ôl yr amserlen a gyhoeddwyd ymlaen llaw.

Nid yw gradd-brentisiaethau wedi eu cynnwys yn yr ystadegau hyn, ac eithrio'r cyfanswm cronnus tuag at y mesur targed. Yn 2024/25, roedd 480 o ddechreuadau mewn gradd-brentisiaethau a gyfrannodd at y mesur.

## Math o ddarpariaeth

Pennir y math o ddarpariaeth ar lefel y rhaglen ddysgu. Nid adroddiad cyllido mo'r datganiad hwn ac fe all diffiniadau fod yn wahanol i'r rhai a ddefnyddir at ddibenion cyllido.

- At ddiben y datganiad ystadegol hwn, diffinnir **Addysg Bellach (AB)** fel yr hyn a gyflwynwyd i LLWR gan ddarparwr AB heb gynnwys:
- rhaglenni dysgu sydd wedi eu categoreiddio isod fel dysgu seiliedig-ar-waith; a
- dysgu a gyflwynir gan Awdurdod Lleol trwy drefniant isgontractio gyda darparwr AB.
- rhaglenni prentisiaeth iau (gyda dysgwyr yn cael eu cofnodi hefyd trwy ffigyrau cofrestru ysgolion).

Mae data ar gyfer yr holl ddysgwyr addysg uwch (AU) mewn sefydliadau Addysg Bellach yn cael eu cofnodi trwy ddata HESA (Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch) yn awr yn hytrach na LLWR. Yn hanesyddol mae data Addysg Uwch freiniol wedi bod yn cael ei gasglu trwy HESA (ac felly nid yw'n rhan o'r datganiad hwn) ac o 2016/17 mae'r holl ddysgwyr newydd a gyllidwyd trwy CCAUC yn cael eu cofnodi trwy HESA hefyd.

Mae dysgu cymunedol yn ddiffiniad eang sy'n gallu cwmpasu, er enghraifft, ddarpariaeth yng nghanolfannau allgymorth sefydliadau AB ac Addysg Sylfaenol Oedolion. Dim ond darpariaeth dysgu cymunedol awdurdodau lleol y mae'r adroddiad yn ei nodi ac mae'n cyfeirio at hyn fel dysgu cymunedol. Mae tablau StatsCymru yn gwahaniaethu rhwng dysgu cymunedol awdurdodau lleol, a'r holl ddysgu cymunedol.

Mae myfyrwyr ar gyrsiau gydag Addysg Oedolion Cymru wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

Mae darpariaeth Dysgu Seiliedig-ar-waith wedi ei chynnwys boed mewn coleg AB, mewn is-ddarparwr Dysgu Seiliedig-ar-waith i sefydliad AB neu mewn darparwr hyfforddiant arall.

Lle mae darparwr yn rhan o gonsortiwm dysgu seiliedig-ar-waith, fe wnaed yr aseiniad i 'Dysgu seiliedig-ar-waith mewn SABau' neu i 'Dysgu seiliedig-ar-waith mewn Darparwyr hyfforddiant eraill' yn ôl statws yr aelod o'r consortiwm (a all fod yn wahanol i statws partner arweiniol y consortiwm).

Diffinnir darpariaeth **Dysgu cymunedol awdurdod lleol** fel un a gyflwynwyd i LLWR:

- gan Awdurdod Lleol yn uniongyrchol (darpariaeth 'a gynhelir' neu 'wedi ei chontractio allan'); neu
- gan ddarparwr AB ond lle cyflwynir y dysgu gan Awdurdod Lleol trwy bartneriaeth, trefniant breinio neu drefniant isgontractio (darpariaeth 'wedi ei chontractio i mewn').

**Nid yw'r** ffigyrau dysgu cymunedol awdurdodau lleol yn cynnwys darpariaeth 'a gynorthwyir', h.y. cyrsiau dan reolaeth ac a reolir gan sefydliad arall ond y mae'r awdurdod lleol yn eu cefnogi naill ai'n ariannol neu drwy ddarparu adeilad neu gyfleusterau eraill yn rhad ac am ddim neu am gyfradd â chymhorthdal.

Cyflwynir **rhaglenni dysgu seiliedig-ar-waith** i LLWR gan ddarparwyr dysgu seiliedig-ar-waith wedi eu contractio (gan gynnwys rhai sefydliadau AB) ac maent yn bennaf yn cynnwys y rhaglenni canlynol:

- Prentisiaeth (Lefel 3);
- Prentisiaethau Sylfaen (Lefel 2);
- Prentisiaeth Uwch (Lefel 4 ac uwch);
- Hyfforddeiaethau (hyd at a chan gynnwys 2021/22).

Daeth y rhaglen hyfforddeiaethau i ben ym mis Mawrth 2022 ac fe'i disodlwyd gan Twf Swyddi Cymru+, yr adroddir ar ei hystadegau ar wahân yn yr adroddiadau Twf Swyddi Cymru+ chwarterol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn effeithio ar gymharedd ystadegau cyfunol ar gyfer y sector dysgu seiliedig-ar-waith yn ei gyfanrwydd.

## Oedran

Mae oedrannau fel yr oeddent ar 31 Awst ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

## Prydau Ysgol Am Ddim

Mae dysgwyr yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim os yw eu teuluoedd yn cael rhai budd-daliadau/taliadau cymorth penodol, neu'n cael credyd cynhwysol. Caiff dysgwyr eu cofnodi fel dysgwyr cymwys os ydynt wedi cyflwyno cais i'w hawdurdod lleol am brydau ysgol am ddim.

Diffinnir dysgwr yn yr adroddiad hwn fel dysgwr a fu "yn gymwys ar unrhyw adeg i gael Prydau Ysgol Am Ddim" os oeddent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar unrhyw adeg yn ystod eu haddysg mewn ysgol uwchradd yng Nghymru. Os nad oeddent yn gymwys yn ystod unrhyw flwyddyn mewn ysgol uwchradd yng Nghymru fe'u disgrifir fel 'erioed yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim'. Caiff dysgwyr nad oedd modd eu paru â chofnod ysgol uwchradd yng Nghymru eu categoreiddio fel anhysbys.

## Rhywedd

Mae'r cyfanswm ar gyfer yr holl bersonau'n cynnwys nifer fach o ddysgwyr nad ydynt yn uniaethu â hunaniaeth rhywedd ddeuaidd Gwrywaidd neu Fenywaidd.

## Pynciau

Mae gwybodaeth ar gyfer pynciau prentisiaethau'n seiliedig ar wybodaeth Fframweithiau Sector, tra bo gwybodaeth ar gyfer gweithgareddau dysgu unigol a rhaglenni addysg bellach yn seiliedig ar y diffiniad o Feysydd Pwnc Sector (SSA).

## Talgrynnu

Mae ffigyrau wedi eu talgrynnu i’r 5 agosaf ac efallai y bydd anghysonderau bychain rhwng swm yr eitemau cyfansoddol a’r cyfanswm. Mae canrannau wedi eu talgrynnu i'r digid agosaf.

Cyfrifir canrannau gan ddefnyddio’r ffigyrau wedi eu talgrynnu hefyd; felly, efallai na fydd hi’n bosibl ail-greu’r canrannau a ddyfynnir drwy'r datganiad hwn o’r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y tablau.

Mae [c] yn cynrychioli nifer sy’n fwy na 0 ac yn llai na 5, neu ganran ag enwadur sy’n llai na 23 neu rifiadur sy’n llai na 5.

Mae [k] yn cyfeirio at ganran sy’n talgrynnu i 0 ond nad yw’n 0.

Mae [z] yn golygu “amherthnasol”.

## Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd

### Perthnasedd

Defnyddir yr ystadegau o fewn Medr, Llywodraeth Cymru a'r tu allan i fonitro tueddiadau addysgol ac fel llinell sylfaen ar gyfer dadansoddi'r data sylfaenol ymhellach. Rhai o'r defnyddwyr allweddol yw:

- Swyddogion ac aelodau o'r Bwrdd yn Medr
- Ysgrifenyddion y Cabinet, Gweinidogion a swyddogion yn Llywodraeth Cymru;
- Aelodau o'r Senedd ac ymchwilwyr yn Senedd Cymru.
- adrannau eraill y llywodraeth;
- Sefydliadau Addysg Bellach, darparwyr dysgu seiliedig-ar-waith ac awdurdodau lleol;
- Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru;
- Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol;
- myfyrwyr, ymchwilwyr, ac academyddion;
- dinasyddion unigol, cwmnïau preifat, a'r cyfryngau.

Defnyddir yr ystadegau hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd. Rhai enghreifftiau o'r rhain yw:

- cefndir ac ymchwil yn gyffredinol;
- eu cynnwys mewn adroddiadau a phapurau briffio;
- cyngor i Ysgrifenyddion y Cabinet a Gweinidogion;
- goleuo a gwerthuso'r broses llunio polisi addysg yng Nghymru.

### Cywirdeb

Mae ystadegwyr o fewn Medr yn adolygu'r data ac yn cynnal ymholiadau ynghylch unrhyw anghysonderau gyda thîm rheoli data LLWR a, lle y bo'n berthnasol, gyda darparwyr dysgu, cyn y cyhoeddir y tablau.

Mae'r data LLWR sy'n tanategu'r datganiad hwn wedi'i fwriadu i fod yn derfynol, at ddibenion heblaw cyllido.

Mae'r raddfa amser flynyddol ar gyfer cynhyrchu data'n taro cydbwysedd rhwng amseroldeb a'r angen am ansawdd data cywir. Daw'r ystadegau terfynol ar flwyddyn academaidd benodol o gronfa ddata sy'n seiliedig ar LLWR fel yr oedd ym mis Rhagfyr yn dilyn diwedd y flwyddyn academaidd.

### Amseroldeb a phrydlondeb

Rydym hefyd yn cyhoeddi gwybodaeth chwarterol dros dro am brentisiaethau a ddechreuwyd i ddarparu data mwy amserol yn y maes hwn sydd o ddiddordeb.

### Hygyrchedd ac eglurder

Rhoddir gwybod ymlaen llaw am y datganiad ystadegol hwn ac yna fe'i cyhoeddir ar wefan www.medr.cymru. Ceir tablau manylach i gyd-fynd ag ef ar StatsCymru, gwasanaeth rhad-ac-am-ddim sy'n galluogi ymwelwyr i weld, trin, creu a lawrlwytho data.

Mae'r adroddiad yn dilyn arfer gorau ar gyfer adrodd ar ddata a delweddu data i gynorthwyo gyda hygyrchedd, gan gynnwys defnyddio lliwiau hygyrch a darparu disgrifiadau ysgrifenedig gyda siartiau.

## Cymharedd a chydlyniad

### Rhaglenni dysgu prentisiaeth

O fis Medi 2022, mae'r holl brentisiaethau adeiladu'n dechrau ar lefel 3 yn lle lefel 2. O'r rhaglenni a ddechreuodd yn 2022/23, dechreuwyd 93% gan wrywod. Mae hyn wedi achosi cwymp mawr yn nifer y prentisiaethau lefel 2 a ddechreuwyd a chynnydd mewn prentisiaethau lefel 3 yn y sector hwn o'i gymharu â ffigyrau blaenorol ar gyfer gwrywod.

Daeth trefniadau newydd ar gyfer contractau dysgu seiliedig-ar-waith i rym o 1 Awst 2021. Fe arweiniodd hyn at drosglwyddo oddeutu 4,800 o brentisiaid presennol i ddarparwyr newydd gyda chofnodion rhaglenni newydd yn cael eu creu ar Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru. Fel arfer mae cofnodion rhaglenni newydd sy'n deillio o drosglwyddiad yn cael eu cynnwys yn yr ystadegau ar brentisiaethau a ddechreuwyd ac eithrio'r mesur targed. Fodd bynnag, ar gyfer 2021/22, ni wnaethom gynnwys y cofnodion gan bod cymaint o ddysgwyr wedi cael eu trosglwyddo fel y byddai'r ystadegau wedi cyflwyno darlun camarweiniol o brentisiaethau a ddechreuwyd yn y chwarter pe baent wedi cael eu gadael i mewn.

### Hyfforddeiaethau a Twf Swyddi Cymru+

Roedd y datganiad hwn yn cynnwys Hyfforddeiaethau mewn ffigyrau ar gyfer dysgu seiliedig-ar-waith hyd at a chan gynnwys blwyddyn academaidd 2021/22. Daeth y rhaglen Hyfforddeiaethau i ben ym mis Mawrth 2022 ac fe'i disodlwyd gan Twf Swyddi Cymru+.

Adroddir ar wahân ar ystadegau ar gyfer Twf Swyddi Cymru+ yn yr adroddiadau [Twf Swyddi Cymru+] chwarterol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru, ar sail blwyddyn ariannol. Felly nid yw ystadegau 2022/23 ar gyfer darpariaeth dysgu seiliedig-ar-waith yn eu cyfanrwydd yn gallu cael eu cymharu â blynyddoedd blaenorol. Ar ben hynny, bydd rhywfaint o effaith ar ffigyrau ar gyfer 2021/22 gan bod y rhaglen Hyfforddeiaethau wedi dod i ben ran o'r ffordd drwy'r flwyddyn academaidd honno.

Ers eu cyflwyno yn 2011/12, roedd hyfforddeiaethau'n rhoi cyfrif am rhwng 10% ac 20% o'r holl ddysgu mewn rhaglenni dysgu seiliedig-ar-waith.

Bydd y mater hwn hefyd yn cael effaith lai ar unrhyw ystadegau a gyflwynir ar gyfer y tri sector (addysg bellach, dysgu cymunedol awdurdodau lleol a dysgu seiliedig-ar-waith) ar y cyd, er enghraifft cyfrifau o ddysgwyr unigryw ar y cyfan.

### Data ar gyfer blynyddoedd blaenorol

Fe wnaed y newidiadau canlynol i'r casgliad data ar gyfer 2017/18.

### Dysgu nas cyllidir:

O 1 Awst 2017, nid yw gwybodaeth sy'n ymwneud â gweithgareddau dysgu nas cyllidir yn gyhoeddus yn cael ei chasglu trwy LLWR mwyach; er bod y newid ar lefel

gweithgareddau unigol bydd yn cael effaith ar nifer y dysgwyr a gofnodir ar y cyfan. Gan bod cyllid yn cael ei gofnodi ar lefel gweithgareddau yn hytrach nag ar lefel dysgwyr, mae'n anodd rhoi asesiad cadarn o'r effaith, gan y gallai'r newid effeithio ar y ffordd y mae darparwyr yn codio eu data hefyd.

### Sector Dysgu Cymraeg:

O 1 Awst 2017, nid yw gwybodaeth sy'n ymwneud â darpariaeth Dysgu Cymraeg/Cymraeg i Oedolion mewn sefydliadau Addysg Bellach yn cael ei chasglu trwy LLWR mwyach. Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol sydd wedi bod yn gyfrifol am ddarparu arweinyddiaeth i'r rhaglen Cymraeg i Oedolion a chydlynu'r ddarpariaeth ledled Cymru ar ran Llywodraeth Cymru ers 2015.

Mae'r ddau newid hyn yn golygu, yn enwedig i addysg bellach ran-amser a dysgu cymunedol, nad yw'n bosibl dod i unrhyw gasgliadau ynglŷn â thueddiadau yn nifer y dysgwyr o'i gymharu â'r blynyddoedd cyn 2017/18. Gallai'r newidiadau i'r modd y cesglir data roi cyfrif yn llawn am y gostyngiad a welwyd. Er mwyn cyflawnder mae'r siartiau canlynol yn dangos y gyfres amser – ond yn dynodi'r toriad yn y gyfres ac na ellir cymharu ffigyrau ar gyfer 2017/18 â blynyddoedd cynharach.

### Codau ailsefyll

O 2017/18 bu newid i'r modd y cofnodir arholiadau ailsefyll TGAU, trwy raglenni rhan-amser ar wahân ochr yn ochr â rhaglenni dysgu eraill. Yn 2018/19 cofnodwyd oddeutu 14,600 o raglenni o'r fath gan oddeutu 11,800 o ddysgwyr unigryw.

### Y boblogaeth mewn-dysgu

Mae cyfrifon mewn-dysgu ar gyfer yr holl flynyddoedd yn y datganiad cyfredol (ac yn y bwletinau eraill gan ddefnyddio data LLWR a restrir ar ddiwedd y datganiad hwn) ar sail poblogaeth addasedig.

Caiff y boblogaeth mewn-dysgu ei haddasu trwy beidio â chynnwys gweithgareddau heb gau a chanddynt ddyddiad gorffen disgwyliedig sydd fwy na dwy flynedd yn gynharach na dechrau'r flwyddyn academaidd benodol. Ar ôl eithrio'r gweithgareddau hyn, caiff y boblogaeth ei phennu wedyn o'r gweithgareddau sy'n weddill trwy'r dyddiadau dechrau a gorffen gwirioneddol (ar y cyd â dyddiad gorffen y rhaglen ddysgu, lle y bo ar gael ar wahân ar gyfer rhaglenni dysgu seiliedig-ar-waith).

Cyflwynwyd y boblogaeth addasedig er mwyn rhoi adlewyrchiad mwy cywir o weithgarwch 'byw' ar ôl adnabod nifer cynyddol o weithgareddau heb gau ers cyflwyno LLWR.

### Dull dysgu

Cyn 2014/15, roedd Dull dysgu'n cael ei ddeillio gan ddefnyddio oriau cyswllt dan arweiniad a gafwyd o faes LA19 yn LLWR. Roedd rhaglenni nad oeddent yn ddysgu seiliedig-ar-waith yn cael eu dosbarthu at ddibenion ystadegol fel rhai amser llawn os oeddent yn cynnwys o leiaf 450 o oriau cyswllt dan arweiniad y flwyddyn ac roedd rhaglenni eraill nad oeddent yn ddysgu seiliedig-ar-waith yn cael eu dynodi'n rhai rhan-amser. Yn sgîl newid i'r modd y cesglir data LLWR, nid yw hyn yn bosibl ar yr un sail

mwyach. Yn lle hynny, o 2014/15 ymlaen, pennir y dull yn uniongyrchol o ddynodwr yn y maes Cod Rhaglen Dysgu newydd yn LLWR (LP74).

Ni chafodd y maes LA19 yn LLWR a ddefnyddid i ddeillio'r dull dysgu blaenorol ei gasglu ar ôl diwedd 2013/14 ac ni chasglwyd y maes newydd LP74 cyn dechrau 2014/15. Mae'r diffyg cyfnod o orgyffwrdd yn golygu na ellir dwyn cymhariaeth uniongyrchol. Fodd bynnag, mae'r duedd o un dull i'r llall i'w gweld yn esmwyth. Yng nghyd-destun data AB a dysgu cymunedol, ymddengys fod gan y dull newydd nodweddion tebyg iawn i'r hen ddull.

## Datganiad cydymffurfio â’r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau

Caiff ein harfer ystadegol ei reoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR). OSR sy’n pennu’r safonau dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau y dylai’r holl gynhyrchwyr ystadegau swyddogol ymlynu wrtho.

Caiff ein holl ystadegau ni eu cynhyrchu a’u cyhoeddi yn unol â nifer o ddatganiadau a phrotocolau i wella dibynadwyedd, ansawdd a gwerth. Caiff y rhain eu nodi yn y Datganiad Cydymffurfio â’r Cod Ymarfer Ystadegau gan Medr.

Mae’r ystadegau swyddogol hyn yn dangos y safonau a ddisgwylir o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y ffyrdd canlynol.

### Dibynadwyedd

Cynhyrchwyd yr ystadegau hyn yn unol â Datganiad Cydymffurfio Medr a’i bolisi ar weld ystadegau swyddogol cyn eu rhyddhau.

### Ansawdd

Daw’r data o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a gyflwynir gan ddarparwyr dysgu. Defnyddir y data hefyd i bennu cyllid ar gyfer darparwyr dysgu ac mae’n cael ei archwilio.

Pan gyflwynir data rhaid iddo fodloni rheolau dilysu penodol. Pan fo’r ystadegau’n cael eu cynhyrchu cynhelir gwiriadau ansawdd gan yr ystadegwyr.

### Gwerth

Cynhyrchir yr ystadegau hyn i ddarparu mewnwelediad i’r dysgu a gyflwynir yng Nghymru. Fe’u defnyddir i fonitro a gwerthuso’r sectorau dysgu oedolion, addysg bellach, a dysgu seiliedig-ar-waith.

### Newid yn y statws ystadegau achrededig

Arferai’r ystadegau hyn gael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru fel Ystadegau Cenedlaethol (a adwaenir bellach fel Ystadegau Swyddogol Achrededig). Gan bod yr ystadegau bellach yn cael eu cyhoeddi gan sefydliad newydd, mae’r statws Ystadegau Swyddogol Achrededig wedi cael ei ddileu dros dro.

Mae Medr wedi parhau â’r systemau a phrosesau ar gyfer cynhyrchu’r ystadegau a ddefnyddid gan Lywodraeth Cymru, ac mae’r ystadegwyr sy’n cynhyrchu’r ystadegau’n cynnwys ystadegwyr a arferai gynhyrchu ystadegau addysg bellach, dysgu seiliedig-ar-waith a dysgu cymunedol yn Llywodraeth Cymru.

Bydd OSR yn asesu’r prosesau sydd gan Medr fel cynhyrchydd ystadegau swyddogol. Bydd OSR yn asesu a yw’r ystadegau’n ateb y gofynion ar gyfer Ystadegau Swyddogol Achrededig.

# Rhagor o fanylion

Mae'r datganiad hwn ar gael yn www.medr.cymru.

## StatsCymru

Mae tablau ychwanegol sy'n rhoi rhagor o fanylder, gan gynnwys dadansoddiad yn ôl rhaglen a math o gymhwyster, pwnc, oedran, statws anabledd ac ethnigrwydd, ar gael trwy wasanaeth lledaenu ar-lein Llywodraeth Cymru, StatsCymru.

## Allbynnau ystadegol eraill sy'n defnyddio data LLWR ac sy'n tanategu'r datganiad hwn

- 'Mesurau canlyniadau dysgwyr ar gyfer addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned' – Ystadegau ar ddeilliannau dysgwyr ar gyfer prentisiaethau a dysgu oedolion yn y gymuned.
- 'Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16 (cyflawniad)' – Ystadegau ar gyflawniad dysgwyr mewn sefydliadau AB (sy'n deillio o ddata LLWR) a chweched dosbarth mewn ysgolion (sy'n deillio o ffynonellau data ysgolion)
- 'Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16 (cyrchfannau dysgwyr' – Ystadegau ar gyrchfannau dysgwyr ôl-16 yn y flwyddyn ar ôl eu rhaglen ddysgu ôl-16.
- Rhaglenni dysgu prentisiaeth a ddechreuwyd.
- 'Deilliannau dysgwyr mewn addysg ôl-16 a effeithiwyd gan bandemig y coronafeirws (Covid-19)' – adroddiadau ar ddeilliannau dysgu dysgwyr a oedd ar raglenni galwedigaethol, rhaglenni addysg gyffredinol (gan gynnwys Safon Uwch), prentisiaethau neu gyrsiau dysgu cymunedol.

## Gwledydd y DU

Ceir enghreifftiau o allbynnau tebyg o wledydd eraill y DU yma:

Lloegr - Addysg bellach a sgiliau: datganiad ystadegol cyntaf - gov.uk

Gogledd Iwerddon – Cofrestriadau Addysg Bellach – Yr Adran Cyflogaeth a Dysgu

Yr Alban – Ystadegau Dysgu Gydol Oes yr Alban: datganiad ystadegol cyntaf

Fodd bynnag, yn sgîl gwahaniaethau yn y fethodoleg a'r modd y cesglir data, dylid cymryd gofal wrth ddwyn cymariaethau uniongyrchol â'r ffigyrau a gynhwysir yn y datganiad hwn.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru


2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ


Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**